



Rhyngwyneb rhwng Proses yr Adolygiad Ymarfer Plant ac Oedolion ac Adolygiadau Dynladdiad yn y Cartref yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru.

Mae Byrddau Diogelu Plant ac Oedolion Canolbarth a Gorllewin Cymru a'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol priodol o fewn y rhanbarth wedi ymrwymo i atgyfnerthu cyfathrebu a rhannu gwybodaeth wrth wneud Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion ac Adolygiadau Dynladdiad yn y Cartref. Caiff canllawiau statudol ar Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion eu cyhoeddi dan [Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#), a chanllawiau atodol sydd yn [Cydweithio i Amddiffyn Pobl – Cyfrolau 2 a 3](#).

Bwrdd Gweithredol Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru ac Is-grwpiau Adolygu Ymarfer Plant ac Oedolion sy'n gyfrifol am lywodraethu ffurfiol a derbyn adroddiadau Adolygiadau Ymarfer. Mae Grwpiau Gweithredol Lleol hefyd yn chwarae rhan bwysig wrthi nodi a phenderfynu ar achosion all fod yn addas ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion.

Adolygiadau Ymarfer Plant

Ar sail [Cydweithio i Amddiffyn Pobl – Cyfrol 2 – Adolygiadau Ymarfer Plant](#), y meini prawf ar gyfer cynnal Adolygiadau Ymarfer Plant yw:

Rhaid i Fwrdd Diogelu wneud **Adolygiad Ymarfer Plant Cryno** yn unrhyw rai o'r achosion canlynol pan fo cam-drin neu esgeuluso plentyn yn hysbys neu dybiedig, o fewn ardal y bwrdd, a'r plentyn:

- medi marw; neu
- wedi cael anaf a allai beryglu bywyd; neu
- wedi dioddef amhariad difrifol a pharhaol ar iechyd neu ddatblygiad; **ac**

nad oedd y plentyn naill ai ar y gofrestr amddiffyn plant nac yn blentyn yn derbyn gofal yn y 6 mis cyn

- dyddiad y digwyddiad y cyfeiriwyd ato uchod; neu'r
- dyddiad pryd y nododd yr awdurdod lleol neu bartner perthnasol* fod plentyn wedi dioddef amhariad difrifol a pharhaol ar ieched neu ddatblygiad.

*Ystyr awdurdod lleol neu bartner perthnasol yw rhywun y cyfeirir ato yn Adran 28 o Ddeddf Plant 2004 neu gorff a grybwyllir yn Adran 175 o Ddeddf Addysg 2002.

Mae'r meini prawf ar gyfer cynnal **Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig** yr un fath â'r uchod heblaw:

bod y plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant a/neu'n derbyn gofal (gan gynnwys rhywun sydd wedi cyrraedd 18 oed, ond a oedd yn derbyn gofal) ar unrhyw ddyddiad yn ystod y 6 mis blaenorol.

Adolygiadau Ymarfer Oedolion

Ar sail [Cydweithio i Amddiffyn Pobl – Cyfrol 3 – Adolygiadau Ymarfer Oedolion](#), y meini prawf ar gyfer cynnal Adolygiadau Ymarfer Oedolion yw:

Rhaid i Fwrdd Diogelu gomisiynu **Adolygiad Ymarfer Oedolion Cryno** pan fo oedolyn mewn perygl sydd heb, ar unrhyw ddyddiad yn ystod y 6 mis cyn dyddiad y digwyddiad, fod yn rhywun y mae'r awdurdod lleol wedi penderfynu gweithredu i'w warchod rhag camdriniaeth neu esgeulustod yn dilyn ymholiad gan awdurdod lleol, ac sydd:

- wedi marw; neu
- wedi cael anaf a allai beryglu bywyd; neu
- wedi dioddef amhariad difrifol a pharhaol ar ieched.

Mae'r meini prawf ar gyfer cynnal **Adolygiad Ymarfer Oedolion Estynedig** yr un fath ag adolygiad cryno heblaw:

pan fo oedolyn mewn perygl, sydd **wedi** bod, ar unrhyw ddyddiad yn ystod y 6 mis cyn dyddiad y digwyddiad, yn rhywun y mae'r awdurdod lleol wedi penderfynu gweithredu i'w warchod rhag camdriniaeth neu esgeulustod yn dilyn ymholiad gan awdurdod lleol.

Datganolwyd cyfrifoldeb statudol a llywodraethu mewn cyd-destun cenedlaethol dros Adolygiadau Ymarfer i Lywodraeth Cymru.

Adolygiadau Dynladdiad yn y Cartref

Mae adolygiadau Dynladdiad yn y Cartref yn ofyniad statudol fel yr amlinellir yn [Deddf Trais Domestig, Troseddau a Dioddefwyr 2004](#) a'r [Canllawiau Statudol Amlasiantaethol ar gynnal Adolygiadau Dynladdiad yn y Cartref \(Rhagfyr 2016\)](#) sy'n sail iddi. Partneriaethau Diogelwch Cymunedol lleol sy'n gyfrifol am gynnal, cyflwyno adroddiadau a llywodraethu DHR o fewn pob un o bedwar awdurdod lleol y rhanbarth. Y Swyddfa Gartref a Llywodraeth y DU sydd â chyfrifoldeb cenedlaethol cyffredinol ac, yn wahanol i Adolygiadau Ymarfer, ni ddatganolwyd pwerau i Lywodraeth Cymru.

Yn ôl [Canllawiau Statudol Amlasiantaethol ar gynnal Adolygiadau Dynladdiad yn y Cartref \(Rhagfyr 2016\)](#), y meini prawf ar gyfer cynnal **Adolygiad Dynladdiad yn y Cartref** yw:

Adolygu dan ba amgylchiadau y mae marwolaeth rhywun 16 oed neu hŷn wedi, neu'n ymddangos ei bod wedi, deillio o drais, camdriniaeth neu esgeulustod gan:

- (a) rywun oedd yn berthynas neu a fu mewn perthynas bersonol agos; neu
- (b) rywun ar yr un aelwyd.

Mae Canllawiau Statudol, fel y cyfeiriwyd atynt uchod, yn cefnogi cydweithio, yn enwedig mewn sefyllfaoedd lle mae'r dysgu dynodedig yn berthnasol i staff ac asiantaethau sy'n gweithio oddi mewn i'r fframweithiau Adolygiad Ymarfer a DHR a phan fo'r meini prawf ar gyfer cynnal adolygiadau'n gorgyffwrdd. Enghreifftiau o sefyllfa o'r fath fyddai rhywun ifanc 16 neu 17 oed yn ddioddefwr dynladdiad yn y cartref neu, fel arall, dioddefwr llawn oed dynladdiad yn y cartref a aseswyd yn flaenorol fel oedolyn mewn perygl gydag anghenion gofal a chefnogaeth. Yn dechnegol, gallai'r ddwy sefyllfa hyn gyrraedd y meini prawf ar gyfer DHR ac Adolygiad Ymarfer Plentyn neu Oedolyn. Pan fo sefyllfaoedd o'r fath yn digwydd, mae'n bwysig bod cyswllt a chyfathrebu agos rhwng y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol a Partneriaethau Diogelwch Cymunedol Lleol a phaneli DHR. Bydd hyn yn cynorthwyo sicrhau nodi unrhyw bosibilrwydd dysgu ar y cyd a chydweithio ar y cyfle cyntaf a galluogi sefydlu trefniadau priodol.

O gyrraedd y meini prawf ar gyfer cynnal DHR, mae'n annhebygol iawn y byddai Adolygiad Ymarfer Oedolyn yn cael ei gynnal hefyd ac, yn y rhan fwyaf o achosion, y DHR fydd yn cael ei nodi fel y broses adolygu arweiniol. Fodd bynnag, mae'n bwysig hysbysu cynnydd i'r Is-grŵp Adolygiad Ymarfer rhanbarthol a lledaenu unrhyw themâu dysgu perthnasol i staff perthnasol. Yn yr un modd, dim ond dan amgylchiadau eithriadol y byddai cynnal DHR cydweithredol a/neu APR/CPR yn cael ei ystyried o gytuno y byddai cynnal dwy broses adolygu ar wahân yn creu cryn ailadrodd diangen ac na fyddai er budd aelodau'r teulu. Byddai angen ystyried unrhyw benderfyniad i gynnal adolygiad ar y cyd yn ofalus a'i gytuno gan Gadeirydd y Bwrdd Diogelu a Chadeirydd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol briodol.

Parallel Reviews of Practice

Dywed [Cydweithio i Amddiffyn Pobl – Cyfrol 2 – CPR](#):

6.7 Mae nifer o gyfrifoldebau statudol dros adolygu marwolaethau a digwyddiadau difrifol. Mae'r rhain yn cynnwys: adolygiadau dynladdiad yn y cartref, darparu gwasanaethau iechyd meddwl gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru'n dilyn dynladdiad, Adolygiad Digwyddiad Difrifol y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid, neu ymchwiliad yr Ombwdsmon Carcharau a Phrofiannaeth pan fu plentyn farw mewn amgylchedd carcharol.

6.8 Pan fo'r achos yn peri adolygiadau ymarfer cyfochrog eraill: dylai Is-grŵp yr Adolygiad:

- ystyried y cyfleoedd a threfniadau a allai fod ar gyfer cydgysylltu gyda'r cyrff eraill hynny dan sylw;

- trafod gyda'r cyrff hynny a chytuno sut mae proses adolygu gydgysylltiedig neu a gydgomisiynwyd yn rhoi'r sylw gorau i'r canlyniadau sydd angen eu cyflawni, yn y dull mwyaf effeithiol a'r lleiaf o oedi;
- ystyried cydadolygiad neu ychwanegu cwestiynau at gylch gorchwyl yr adolygiad;
- sicrhau bod buddiannau'r plant yn cael eu cynrychioli'n briodol bob amser mewn ymchwiliadau ymarfer eraill sydd, er enghraifft, yn canolbwyntio ar yr oedolyn;

Mae [Cydweithio i Amddiffyn Pobl – Cyfrol 3](#) yn rhoi canllawiau tebyg o ran Adolygiadau Ymarfer Oedolion.

Mewn cyd-destun a naws tebyg mae [Canllawiau Statudol Amlasiantaethol ar gynnal Adolygiadau Dynladdiad yn y Cartref \(Rhagfyr 2016\)](#) yn datgan:

23. Pan fo dioddefwyr dynladdiad yn y cartref rhwng 16 a 18 oed, dylid nodi bod gofynion ar wahân mewn canllawiau statudol ar Adolygiadau Achosion Difrifol Plant, Adolygiad Diogelu Oedolion ac Adolygiad Dynladdiad yn y Cartref. Dylid ystyried sut i reoli'r adolygiadau hyn yn gyfochrog yn y dull mwyaf effeithiol posibl fel bod sefydliadau a gweithwyr proffesiynol yn gallu dysgu o'r achos – er enghraifft, ystyried a oes modd cydgomisiynu rhai neu holl agweddau ar yr adolygiadau fel ag i leihau ailadrodd gwaith y sefydliadau dan sylw a rhoi gwell profiad i deuluoedd, ond bod siâp terfynol yr adolygiad yn ateb gofynion y ddau ar sail y canllawiau statudol.

Wrth sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu, mae Canllawiau DHR hefyd yn dweud:

110. c) Dylid lledaenu dysgu dilynol i'r MARAC lleol, fforymau amlasiantaethol eraill, y Bwrdd Diogelu Oedolion, y Bwrdd Lleol Diogelu Plant a chomisiynwyr gwasanaethau.

110. d) Rhannu ac ymgorffori'r dysgu (gan gynnwys unrhyw wersi cenedlaethol a ddysgwyd) ar draws llinynnau diogelu oedolion a phlant a'i ddefnyddio mewn rhaglenni hyfforddi lleol a rhanbarthol ar gyfer staff y rheng flaen.

Mae'r fframweithiau uchod yn rhoi cyfle i ranbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru wneud y canlynol:

- Atgyfnerthu cyfathrebu rhwng yr Adolygiad Ymarfer a phrosesau DHR
- Bod yn greadigol yn yr agwedd ranbarthol at adolygiadau
- Cefnogi cydweithredu a chydweithio, pan fo hynny'n ymarferol ac yn gwneud synnwyr
- Sefydlu cyfathrebu cadarn a chliir rhwng y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol a Phartneriaeth Diogelwch Cymunedol a Phaneli Adolygu DHR
- Helpu osgoi ailadrodd diangen a sicrhau bod unrhyw wersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu'n eang ar draws partneriaethau amlasiantaethol a phrosesau adolygu priodol

Cytunwyd ar y broses ganlynol a'i sefydlu rhwng Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol lleol i gynorthwyo'r uchod.

Cyrhaeddwyd Meini Prawf Adolygiad Dynladdiad yn y Cartref (DHR)

CSP yn penderfynu cynnal DHR

Sefydlu Panel DHR a phenodi Cadeirydd(ion) Annibynnol

Trosolwg adroddiad DHR i'w gwblhau gan y Panel DHR

Panel QA y Swyddfa Gartref yn ystyried yr Adroddiad

Cyhoeddi'r adroddiad a Rhannu'r dysgu

O fewn
1 Mis

O fewn
6 Mis

O fewn
9 Mis

Prosesau DHR Statudol yn parhau drwy gydol yr amser

Rheolwr CSP yn hysbysu Rheolwr RSB

Trafodaeth ddechreuol anffurfiol rhwng Rheolwyr CSP/RSB ynghylch tebygolrwydd meini prawf ar gyfer CPR/APR

NAGE

IE

Trafodaeth anffurfiol rhwng Rheolwyr CSP/RSB ar y ffordd orau o symud ymlaen

Trafod yr achos yn GGLI

Cyrraedd y meini prawf i GGLI gyfeirio'r achos i Is-grŵp APR/CPR

NAGE

IE

Proses DHR yn parhau
Achos yn eitem agenda safonol GGLI
Dod ag Adroddiad DHR i GGLI
Dal a rhannu themâu dysgu pan fo angen

Proses DHR yn parhau
Atgyfeirio ffurfiol i Is-grŵp APR/CPR
Trafodaeth ffurfiol yn Is-grŵp APR/CPR ar y ffordd fwyaf briodol o ddal dysgu ar y cyd
Dal a rhannu themâu dysgu pan fo angen